Saesneg Clir

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoli gwersylloedd heb ganiatâd

## Canllaw i helpu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i ddeall eu hawliau

Chwefror 2026

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 3

Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru .......... 4

Ar gyfer pwy mae'r canllawiau .......... 5

Eich Hawliau .......... 6

Deall beth ydy gwersylloedd diawdurdod .......... 10

Rheoli gwersylloedd diawdurdod .......... 11

Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 .. 16

Pwy sy'n gyfrifol am reoli gwersyll diawdurdod .......... 17

Cyfathrebu .......... 19

# Cyflwyniad

Mae’r ddogfen yma yn esbonio’r canllawiau sydd yn cael eu rhoi i gynghorau a chyrff cyhoeddus ar sut y dylen nhw ymateb i **wersylloedd diawdurdod**.

Mae **gwersyll heb ei awdurdodi** yn safle lle mae carafanau neu gerbydau yn parcio ar dir heb ganiatâd y perchennog.

Mae hyn yn wahanol i pan fydd tir wedi’i brynu gan Sipsiwn a Theithwyr sydd heb ganiatâd cynllunio.

Mae hynny’n cael ei alw yn safle preifat heb ganiatâd cynllunio. Dydy hyn **ddim** yn cael ei gynnwys yn y canllawiau yma.

Mae gan Sipsiwn a Theithwyr yr un hawliau ag unrhyw un arall i gartrefi diogel, addas a diwylliannol briodol.

Fe wnaethon ni’r canllaw yma i helpu pawb i ddeall yr hawliau hyn.

# Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru

Mae tua 3,600 o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

Mae mwy o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru na'r lleiniau sydd ar gael ar gyfer eu carafanau neu gartrefi symudol.

Mae llain yn ofod ar safle lle mae teulu yn gallu parcio eu carafán neu eu cartref symudol a byw yno.

Yng Nghymru,  mae gwersylloedd diawdurdod yn aml yn digwydd ger prif ffyrdd, gan deuluoedd sy'n teithio drwy'r ardal.

Mae diffyg mannau stopio dros dro i deuluoedd yn gallu arwain at wersylloedd diawdurdod.

Efallai y bydd gan rai cynghorau lleol yng Nghymru fwy o wersylloedd diawdurdod nag eraill.

Ond dylai pawb gael cynlluniau i gefnogi'r rhai ar y gwersyll yn barchus.

# Ar gyfer pwy mae'r canllawiau

Mae'r fersiwn yma o'r canllawiau ar gael i helpu teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr i ddeall eu hawliau a sut y dylen nhw gael eu cefnogi gan gynghorau lleol.

Mae hefyd yn gallu bod yn ddefnyddiol i dirfeddianwyr a sefydliadau.

Pan mae tir yn perthyn i Lywodraeth Cymru neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall, mae'r cyngor lleol yn dal i fod yn gyfrifol.

Does gan **dirfeddianwyr preifat** ddim yr un dyletswyddau â chynghorau lleol.

# Eich Hawliau

Mae gan gynghorau lleol ddyletswyddau tuag at Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn eu hardal.

Rhaid i gynghorau lleol fodloni'r dyletswyddau yma os ydy pobl ar safle awdurdod lleol **neu** wersyll diawdurdod.

Mae deddfau yn reolau cyfreithiol i amddiffyn pobl ac mae rhai ohonyn nhw yn cael eu rhestru yma. Dyma eich hawliau.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae gan Sipsiwn a Theithwyr hawl i amddiffyniad o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rhaid iddyn nhw gael eu trin yn deg a pheidio â chael eu trin yn wael.

Mae'r Ddeddf yn dweud na ddylai pobl gael eu trin yn annheg oherwydd eu hil, eu diwylliant, eu credoau. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn Sipsiwn a Theithwyr rhag cael eu trin yn wael neu'n annheg.

**Deddf Tai (Cymru) 2014**

Mae gan gynghorau lleol ddyletswyddau i'r digartref a'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd.

Mae Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn carafanau sydd wedi'u parcio ar wersyll diawdurdod, heb unman i fyw yn gyfreithlon, yn gallu cofrestru fel digartref o dan y Ddeddf yma.

Rhaid i gynghorau lleol gynnal asesiadau o anghenion tai Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn darparu digon o safleoedd sipsiwn a theithwyr ac os nad ydyn nhw, yna gweithio ar gynlluniau i reoli hyn yn y dyfodol.

Rhaid i gynghorau lleol ddarparu safleoedd lle gellir gosod cartrefi symudol i ateb yr anghenion hynny.

## Deddf Plant 1989

Mae gan bob cyngor lleol ddyletswydd i gadw plant yn ddiogel.

Rhaid iddyn nhw ddarparu gwasanaethau i hyrwyddo llesiant plant, trwy edrych ar beth sydd ei angen ar blant, delio â risgiau diogelwch, a gwneud yn siŵr bod plant yn cael y gefnogaeth gywir a lle diogel i aros

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015

Rhaid i wasanaethau cyhoeddus hyrwyddo llesiant oedolion a phlant sydd angen gofal a chymorth.

Mae hyn yn gallu bod yn berthnasol wrth gefnogi teuluoedd ar ochr y ffordd sydd angen help i gael gwasanaethau cymorth.

## Deddf Addysg 1996

Rhaid i gynghorau lleol gefnogi datblygiad y gymuned trwy addysg.

**Asesiadau llesiant**

Dylai cynghorau lleol gwblhau asesiadau llesiant i bawb sydd wedi symud ymlaen i wersyll diawdurdod - i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel, yn iach ac nad ydyn nhw mewn perygl uniongyrchol.

I wneud hyn, fe ddylai cynghorau weithio gyda gwasanaethau eraill a allai fod â dyletswyddau i gefnogi teuluoedd, a rhaid iddyn nhw wneud eu gwaith mewn ffordd sydd ddim yn gwneud i deuluoedd deimlo dan fygythiad neu'n anniogel.

Dylid gwneud asesiadau llesiant cyn gynted â phosibl i wneud yn siŵr bod teuluoedd yn ddiogel. Yn ddelfrydol o fewn 24 awr i'r cyngor lleol ddod yn ymwybodol o deulu yn symud i'r gwersyll diawdurdod.

Does dim rhaid i chi roi gwybodaeth bersonol i'r cyngor lleol os nad ydych chi eisiau, ond mae'n eu helpu i ddeall pa gymorth rydych chi ei angen.

Fe fydd hyn yn helpu'r cyngor lleol i ddeall anghenion eich teuluoedd ac a oes angen llain arnoch ar safle tramwy neu fan stopio dros dro.

Dylai cynghorau ystyried trefnu casglu sbwriel, toiledau a chyflenwadau dŵr.

# Deall beth ydy gwersylloedd diawdurdod

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn gallu bod ar wersylloedd diawdurdod am lawer o resymau da.

Fel rhan o'u ffordd o fyw nomadaidd, efallai y byddan nhw'n teithio trwy ardal i fynychu gŵyl, teithio am waith, neu fynychu priodasau ac angladdau.

Ond hefyd, er enghraifft, efallai y bydd diffyg safleoedd cyngor neu fannau stopio dros dro i deuluoedd, gan arwain at deuluoedd yn parcio i fyny.

Fe fydd darparu mwy o safleoedd cynghorau lleol a rheoli safleoedd yn dda yn:

- Cadw teuluoedd yn ddiogel.
- Helpu i leihau gwersylloedd diawdurdod.
- Ateb anghenion cymunedau.

Pan  fydd gwersylloedd diawdurdod yn digwydd, fe ddylai cynghorau lleol geisio gwneud yn siŵr eu bod mor ddiogel â phosibl.

Efallai y bydd yn well i deuluoedd ac yn fwy cost-effeithiol i gynghorau ddarparu llain. Hyd yn oed os ydy hynny yn llain dros dro.

Mae **man stopio dros dro** yn safle y cytunwyd arno lle mae Sipsiwn a Theithwyr yn gallu aros am gyfnodau o amser.

Dylai cynghorau ddarparu mynediad at gyflenwad dŵr a thoiledau.

# Rheoli gwersylloedd diawdurdod

Mae angen i gynghorau a gwasanaethau eraill wneud yn siŵr bod hawliau Sipsiwn a Theithwyr a hawliau trigolion lleol yn cael eu hystyried.

Dylai pob cyngor lleol gael cynllun i ymateb i wersylloedd diawdurdod fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i gadw pobl yn ddiogel.

Dylai cynghorau lleol bob amser ofyn am farn Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau lleol wrth ysgrifennu a dilyn eu cynlluniau. Dylai cynghorau lleol wneud yn siŵr bod cynlluniau'n glir ac yn hawdd eu deall.

Mae teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr eisiau i gynghorau a gwasanaethau eu trin â pharch.

Mae disgwyl i gynghorau lleol ystyried hawliau dynol, sicrhau tegwch, a chynnwys cymunedau Sipsiwn a Theithwyr mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae gan gynghorau lleol 3 phrif opsiwn wrth ddelio â gwersylloedd diawdurdod:

**Opsiwn 1**

Derbyn y gwersyll diawdurdod. Mae hyn yn gallu bod am dymor byr.

**Opsiwn 2**

Dod o hyd i safle arall, naill ai dros dro neu am dymor hirach,

**Opsiwn 3**

Os nad ydy opsiynau 1 a 2 yn datrys y sefyllfa neu ddim yn briodol, dylai'r cyngor lleol ofyn i deuluoedd symud ymlaen. Ond dim ond os oes difrod, neu niwed, neu broblem ddifrifol yn y gwersyll.

Cyn gwneud y penderfyniad yma, rhaid i'r cyngor siarad â theuluoedd. Fe ddylen nhw esbonio'r rhesymau, a gwneud yn siŵr bod anghenion a diogelwch pawb yn cael eu hystyried.

Dylid delio gyda phob gwersyll diawdurdod  fesul achos.

Mae cydbwysedd teg rhwng hawliau Sipsiwn a Theithwyr a hawliau tirfeddianwyr a'r cyhoedd yn bwysig.

Mae cyngor lleol yn gallu penderfynu cymeradwyo gwersyll diawdurdod mewn rhai sefyllfaoedd.

Fe fyddan nhw'n gwneud y penderfyniad yma ar sail:

- Yr asesiad llesiant sydd yn cael ei gynnal gan y pwynt cyswllt sengl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae hyn yn cael ei alw yn Swyddog Cyswllt.
- Materion lleol yn y gymuned ehangach.
- Pa mor hir mae'r gwersyll yn debygol o fod yno.
- Pryderon iechyd a diogelwch i deuluoedd sy'n teithio a'r gymuned. gyfagos.

Mae yna lefydd lle na fyddai cynghorau lleol yn cytuno ar wersylla. Os nad ydyn nhw'n ddiogel i deuluoedd barcio arnyn nhw neu os ydy'r ardal yn cael ei gwarchod. Er enghraifft:

- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol,
- Meysydd parcio ysgol neu gaeau chwarae.
- Meysydd parcio ar gyfer cyfleusterau eraill, fel ysbytai.
- Caeau chwarae cyhoeddus.
- Safle lle gallai llygredd neu wastraff niweidio'r ddaear, dŵr, neu gyrsiau dŵr.
- Ardal gyda gwastraff gwenwynig
- Ymyl ffordd brysur.

Dylid gwneud y penderfyniad i ofyn i bobl adael gwersyll diawdurdod yn ofalus iawn. A bob amser gan drafod gyda’r bobl ar y gwersyll.

Rhaid i gynghorau feddwl am anghenion llesiant pobl ar y safle ac unrhyw bryderon diogelwch.

Dylai’r cyngor ac unrhyw sefydliadau eraill sy’n gysylltiedig ysgrifennu’r holl waith maen nhw wedi’i wneud wrth wneud penderfyniad. Gwneud yn siŵr bod pawb sy’n gysylltiedig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am beth sy’n digwydd.

Os ydy gwersyll eisiau aros yn yr ardal yn y tymor hir, mae hyn yn gallu awgrymu yr angen am safle awdurdod lleol parhaol. Fe fyddai angen i fwy o sgyrsiau ddigwydd.

# Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022

## Deddfau sy'n ymwneud â'r Heddlu a sut maen nhw'n cael eu trin

Os ydych chi'n aros ar dir heb ganiatâd, dylai'r cyngor siarad â chi yn gyntaf. Fe ddylen nhw geisio eich helpu i ddod o hyd i le diogel i aros.

Dydy'r heddlu ddim eisiau dod i wersyll oni bai bod problem ddifrifol, fel difrod i eiddo neu rywun yn cael ei anafu. Mae hyn yn cael ei alw yn dorri heddwch.

Awdurdodau lleol ddylai bob amser fod y bobl gyntaf i gyfarfod a siarad gyda phobl ar wersylloedd anawdurdodedig.

Os ydy'r cyngor neu'r heddlu yn gofyn i chi symud oherwydd torri heddwch, fe ddylech chi wneud hynny cyn gynted ag y gallwch chi. Oni bai bod gennych reswm da (fel eich cerbyd yn torri i lawr).

Os nad ydych chi'n symud pan ofynnir I chi, neu os byddwch chi'n dod yn ôl i'r un tir o fewn tri mis, rydych chi'n gallu cael dirwy neu gosb arall.

Os ydy gwersyll yn blocio prif ffordd neu'n beryglus, mae'r  cyngor yn gallu gofyn i chi symud.

Os ydych chi'n cael unrhyw lythyrau neu bapurau, gofynnwch i'r cyngor neu'r heddlu eu hegluro. Rydych chi hefyd yn gallu cael help gan grwpiau cymorth.

# Pwy sy’n gyfrifol am reoli gwersyll diawdurdod

Mae gan bob awdurdod cyhoeddus ddyletswyddau tuag at Sipsiwn a Theithwyr o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Rhaid iddyn nhw feddwl am y dyletswyddau yma wrth ymateb i wersyll diawdurdod ar dir cyhoeddus a deall anghenion y teuluoedd yn llawn.

**Llywodraeth Cymru**

Does gan Lywodraeth Cymru  ddim rôl wrth weithredu yn erbyn gwersylloedd diawdurdod ar dir awdurdod lleol neu dir preifat heb ganiatâd cynllunio.

**Cynghorau lleol**

Pan fydd gwersyll diawdurdod yn digwydd ar dir awdurdod lleol, mae dyletswydd ar y cyngor i helpu’r rhai sy’n ddigartref neu sydd mewn perygl o ddigartrefedd. Dylai Swyddogion Cyswllt neu bobl gyfrifol siarad â’r gymuned yn y gwersyll.

Mae ganddyn nhw hefyd ddyletswyddau i ofalu am lesiant pobl wrth benderfynu sut i ymateb i wersyll diawdurdod.

## Awdurdodau cyhoeddus eraill

Efallai y bydd awdurdodau cyhoeddus eraill sy'n dirfeddianwyr, yn gofyn i bobl adael eu tir. Er enghraifft, parciau cenedlaethol. Ond fe ddylen nhw siarad â'r cyngor lleol yn gyntaf gan y dylen nhw fod yn ymwybodol o'r gwersyll.

## Tirfeddianwyr preifat

Does gan dirfeddianwyr preifat ddim yr un dyletswyddau ag awdurdodau cyhoeddus.

Lle mae angen, fe ddylen nhw siarad â chynghorau lleol. Ond fe ddylen nhw geisio datrys materion mewn ffordd deg a dilyn y gyfraith cyn cynnwys yr heddlu.

# Cyfathrebu

Mae'n bwysig bod y cyngor lleol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb pan fyddan nhw'n ymateb i wersyll diawdurdod, yn enwedig siarad â'r bobl yn y gwersyll. Dylai'r cyngor ddeall beth ydy anghenion y teulu ac, os ydy hi'n ddiogel, cytuno pa mor hir maen nhw'n gallu aros.

Dylai'r cyngor lleol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb am beth sy'n digwydd, yn enwedig y bobl yn y gwersyll. Os ydy'r cyngor neu'r tirfeddiannwr yn bwriadu cymryd camau pellach, mae'n rhaid i'r bobl ar y safle gael eu cynnwys ym mhob sgwrs. Os oes troi allan, rhaid helpu teuluoedd i ddeall unrhyw bapurau llys.

Rhaid i deuluoedd gael gwybodaeth mewn iaith glir a chynnig cymorth i ddeall eu hawliau a'u dewisiadau. Mae grwpiau eiriolaeth a Swyddogion Cyswllt yn gallu helpu.

Beth sydd bwysicaf ydy siarad a gweithio gyda'r bobl yn y gwersyll. Y nod ydy deall a chefnogi ffordd o fyw y teulu, nid eu symud i ffwrdd. Dylai pawb gael eu trin yn deg a gyda pharch, gyda phenderfyniadau yn cael eu gwneud ochr yn ochr â theuluoedd fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn drwy'r amser.